

## **Sul y Blodau**

Roedd hanes Iesu Grist o'r cychwyn cyntaf wedi bod yn daith o Fethlehem i'r Groes, o'i grud i'w goncwest. Ar fenthyg yr oedd ei grud. Ar fenthyg yr oedd ei fedd. Ar fenthyg yr oedd yr ebol asyn y marchogodd i mewn i Jerwsalem ar ei gefn.

A chafodd hyd yn oed yr asyn ei awr fawr wrth wasanaethu'i grëwr y diwrnod rhyfeddol hwnnw. Yn ôl cyfieithiad W J Gruffydd o gerdd G K Chesterton, 'Yr Asyn':

Ynfytion – cefais innau f'awr,  
Un awr felysa gaed:  
Roedd sŵn Hosanna yn fy nghlust  
A phalmwydd dan fy nhraed.

Teithio gyda'r dyrfa a wnawn ninnau gan weddio y cawn ein cadw rhag edrych ac edrych a methu gweld, rhag clywed a chlywed a methu gwranddo, a'n dyhead yw adnabod mawredd yr Hwn oedd ar gerdded ar Sul y Blodau cyntaf ein byd ac sy'n parhau i gerdded drwy'r byd hyd heddiw.

## **Gweddi**

Arglwydd, wrth i ni gofio sut y croesawyd Crist y Brenin i Jerwsalem gan ganeuon o fawl a llawen floedd, a wnei di gynyddu ein dealltwriaeth a'n ffydd, fel y cawn ein dwyn i'r adnabyddiaeth honno ohonot ti dy hun fydd yn ein rhyddhau i'th foliannu di bob dydd a chaniatáu i ni fyw ynddo Ef, yr hwn sy'n byw yn oes oesoedd gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth Amen.

## **Emyn 238 – Ymlaen, ymlaen**

Ymlaen, ymlaen, frenhinol Un,  
"Hosanna!", gwaedda'r dorf gytûn;  
d'anifail llwm ymlwybra 'mlaen  
a phalmwydd dan ei draed ar daen.

Ymlaen, ymlaen, frenhinol Frawd,  
yn wylaidd ar dy farwolrawd:  
i goncro pechod, codi'r graith,  
a thynnu colyn angau caeth.

Ymlaen, ymlaen, frenhinol Grist,  
yr engyl oll sy'n syllu'n drist  
o'r nefoedd mewn rhyfeddod mawr:  
fe deithi at d'angheuol awr.

Ymlaen, O Fab y Dyn di-fraw,  
mae'r olaf ffyrnig frwydyr draw;  
y Tad o uchder gorsedd nef  
sy'n disgwyl ei Eneiniog ef.

Ymlaen, ymlaen, frenhinol Oen,  
â gwylaidd rwysg ar lwybrau poen;  
'n ôl gwyro pen dan farwol glwy',  
O Grist, mewn grym teyrnasa mwy.

(H. H. MILMAN, 1791–1868  
cyf. HYWEL M. GRIFFITHS)

## Darlleniad: Mathew 21:1–11

Yr Ymdaith Fuddugoliaethus i mewn i Jerwsalem

*Mc. 11:1–11; Lc. 19:28–40; In. 12:12–19*

<sup>1</sup> Pan ddaethant yn agos i Jerwsalem a chyrraedd Bethffage a Mynydd yr Olewydd, anfonodd Iesu ddau ddisgybl <sup>2</sup> gan ddweud wrthynt, “Ewch i’r pentref sydd gyferbyn â chwi, ac yn syth fe gewch asen wedi ei rhwymo, ac ebol gyda hi. Gollyngwch hwy a dewch â hwy ataf. <sup>3</sup> Ac os dywed rhywun rywbeth wrthyich, dywedwch, ‘Y mae ar y Meistr eu hangen’; a bydd yn eu rhoi ar unwaith.” <sup>4</sup> Digwyddodd hyn fel y cyflawnid y gair a lefarwyd trwy’r proffwyd:

<sup>5</sup> “Dywedwch wrth ferch Seion,  
'Wele dy frenin yn dod atat,  
yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn,  
ac ar ebol, llwdn anifail gwaith.’ ”

<sup>6</sup> Aeth y disgyblion a gwneud fel y gorchynnodd Iesu iddynt; <sup>7</sup> daethant â’r asen a’r ebol ato, a rhoesant eu mentyll ar eu cefn, ac eisteddodd Iesu arnynt. <sup>8</sup> Taenodd tyrfa fawr iawn eu mentyll ar y ffordd, ac yr oedd eraill yn torri canghennau o’r coed ac yn eu taenu ar y ffordd. <sup>9</sup> Ac yr oedd y tyrfaoedd ar y blaen iddo a’r rhai o’r tu ôl yn gweiddi:

“Hosanna i Fab Dafydd!  
Bendigedig yw’r un sy’n dod yn enw’r Arglwydd.  
Hosanna yn y goruchaf!”

<sup>10</sup> Pan ddaeth ef i mewn i Jerwsalem cynhyrfwyd y ddinas drwyddi. Yr oedd pobl yn gofyn, “Pwy yw hwn?”, <sup>11</sup> a’r tyrfaoedd yn ateb, “Y proffwyd Iesu yw hwn, o Nasareth yng Ngaliilea.”

## Myfyrdod

Gydag ychydig bach o ddychymyg gallwn gamu yn ôl i dudalennau’r Testament Newydd. Fydden ni wedi adnabod yn syth yr emosiwn oedd ar gerdded drwy’r ddinas. “Cynhyrfwyd y ddinas drwyddi” oedd sylw Mathew. Gallwn ddychmygu emosiwn tebyg i dyrfa luosog ar eu ffordd i weld gêm rygbi rhyngwladol rhwng Cymru a Lloegr. A byddai’r brwdfrydedd cenedlaetholgar yn gymysg ag emosiwn

crefyddol, am wahanol resymau, yn peri pryder i'r Rhufeiniaid a'r arweinwyr crefyddol fel ei gilydd.

Nid oedd unrhyw un – heblaw am Iesu ei hun – yn gwybod mai dechrau wythnos olaf Iesu ar y ddaear fyddai hon. Fyddai'r dorf ddim wedi meddwl ymhen ychydig o ddiwrnodau byddai arwr y foment yn cael ei groeshoelio. Fyddai'r dorf ddim wedi sylweddoli bod Iesu wedi trefnu o flaen llaw gyda pherchennog yr asyn i gael benthyg ei greadur. Roedd hyd yn oed y cyfrinair – “mae ar y Meistr eu hangen” – wedi ei osod yn ei le. Ond fyddai'r dorf ddim wedi ystyried hyn.

Ond beth oedd arwyddocâd y ddrama fawr oedd ar gerdded ar lwybr unffordd y groes?

Beth sy'n ein taro'n rhyfeddol yng nghanol yr holl ferw yma o emosiwn yw nad oedd y dorf wedi ei adnabod go iawn. Er eu bod wedi canu caneuon rhyfeddol o fawl ac o ddisgwyliad, nid oeddynt wedi adnabod yr un oedd yn eu cyflawni.

Mewn diwrnod neu ddau byddai Iesu'n wylo dros y ddinas.

“Jerwsalem, Jerwsalem, tydi sy'n lladd y proffwydi ac yn llabyddio'r rhai a anfonwyd atat, mor aml y dymunais gasglu dy blant ynghyd ... ond wele gwrthod a wnaethoch.” (Mathew 23:37)

Hyd yn oed yn awr fawr ei goroni'n llawen gan y dorf, nid oeddynt wedi adnabod fod gwrthrych eu cân yn sefyll gerllaw iddynt.

Pwy yw hwn? Dyna'r cwestiwn ar ddiwedd yr orymdaith.

Mae'n amlwg fod y dyrfa wedi'i chario gan frwdfrydedd yr awr ac wedi methu adnabod y gair y tu ôl i'r geiriau.

Pwy yw hwn? Y ganmoliaeth uchaf y gallai'r rhai a fu'n canu eu caneuon ei rhoi iddo oedd ei gydnabod fel “Y proffwyd Iesu yw hwn, o Nasareth yng Ngallilea”. (adn. 11)

Ond roedd y person a farchogai ar gefn asyn y diwrnod hwnnw yn fwy na phroffwyd.

Roedd yn **gyflawniad proffwydoliaethau**: “digwyddodd hyn fel y cyflawnid y gair a lefarwyd gan y proffwyd”. Nid proffwyd oedd Iesu yn unig ond cyflawniad disgwyliad y proffwydi. Ond pan ddaeth ei awr, roedd y modd y cyflawnwyd y broffwydoliaeth yn wahanol iawn i ddyheadau gwleidyddol y dorf. Brenin i'w rhyddhau, yn gorymdeithio ar flaen ei fyddin oedd eu dyhead. Ond roedd y broffwydoliaeth wedi bod yn glir.

“Dywedwch wrth ferch Seion,” meddai Sechareia. “Wele dy frenin yn dod atat yn ostyngedig ac yn marchogaeth ar asyn.”

Roedd yn frenin. Y mae'n frenin.

Ond mewn gostyngeddwydd y daw atom. Bob amser mewn gostyngeddwydd, byth yn ein trechu drwy drais ei allu a'i rym. Ar wahoddiad y daw'r brenin i'n calonau ninnau heddiw.

Ond roedd hefyd yn fwy na hynny.

Canai'r dyrfa eu cân o fawl, a llanwai eu dyheadau strydoedd y ddinas. Achub ni – cyfieithiad yw “achub ni” o “Hosanna”. “Arglwydd, achub ni,” oedd eu cri. Canent ganeuon am ddyfodiad rhyfeddol Meseia Duw. “Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd.” Arglwydd, achub, tyrd, yn enw'r Arglwydd oedd eu dyhead.” Ac yn eu plith safai un oedd yn fwy na phroffwyd, un oedd yn fwy na chyflawniad ambell broffwydoliaeth annelwig. Safai yn eu plith un oedd yn cyflawni holl ddyheadau cenedl a hil a byd: “Arglwydd, achub ni.”

Er mor groyw eu mynegiant, ac er mor emosiynol eu dyhead, ni allodd y dyrfa adnabod yr Arglwydd, yr un yr oeddynt yn galw amdano, ac arno, eisoes yn sefyll yn eu plith – bod y Gwaredwr yn sefyll yn eu plith, bod dyhead y cenedlaethau a dyhead y cenhedloedd yn sefyll yn ein plith.

Heddiw gadewch i ni fynd heibio i asesiad arwynebol y dorf o'r Arglwydd Iesu Grist a'i gyfyngu i rôl proffwyd. Na, brenin ydyw, gostyngedig ac urddasol. Gwahoddwn ef nid i ddinas gaerog Jerwsalem ond i ddinas ein calonnau. A gweddiwn y byddwn yn adnabod drosom ein hunain “yr hwn sydd yn dyfod yn enw'r Arglwydd”.

## **Gweddi**

Dduw pob cariad, daethost i'n plith mewn gostyngeddurwydd urddasol. Daethost ti, yr hwn sy'n dal y greadigaeth yn dy law, i orffwys ym mreichiau dy fam, Mair. Daethost ti, yr hwn oedd ac sydd yn Frenin ac yn Arglwydd y cyfanfyd, yn ostyngedig ar ddull gwas. Daethost i ddinas Jerwsalem, yn gyflawniad proffwydoliaethau a disgwyliadau dy bobl, ar gefn ebol asyn. Daethost ti sy'n ateb y weddi “Hosanna, achub ni” i gyflawni hynny gan fod yn ufudd hyd angau ar groes. Daethost ti oedd wedi ymwrthod â'th ogoniant i orwedd mewn beddrod du, cyn esgyn drachefn i etifeddu'r mawl a'r clod yr wyt ti yn unig yn ei haeddu. Arglwydd, caniatâ i ni fynd heibio'r cyfarwydd i'r adnabyddiaeth honno sy'n wefreiddiol fyw. Caniatâ i ni dy adnabod fel unig Waredwr ein bywyd a'n henaid i dragwyddoldeb. Hosanna. Achub ni.

Maddau i ni ein diffyg gostyngeddurwydd. Maddau i ni ein balchder. Maddau i ni ein hanufudd-dod. Maddau i ni ein hunanoldeb. Maddau i ni ei fod yn rhwyddach i ni ddweud 'Gwneler fy ewyllys' na phlygu go iawn i ufuddhau i'th ewyllys.

Cyflwynwn i ti feddygon, nyrsys, glanhawyr, rheolwyr ysbytai.

Gweddiwn dros wyddonwyr sy'n ceisio darganfod brechlyn (vaccine) i ni fedru trin yr aflwydd.

Gweddiwn dros arweinwyr y gwledydd; gweddiwn y caiff arweinwyr y gwledydd yr ynsoedd hyn gydweithio gan anrhydeddu eu hawliau a'u cymeriad cenedlaethol.

Gweddiwn am gydweithredu ar draws ffiniau lliw a thras ac iaith a hil, ar draws ffiniau crefyddol a statws cymdeithasol i fedru gorchfygu'r bygythiad hwn.

Ac wedi sefyll, dysg ni sut mae cydweithio i adeiladu dy Deyrnas Di ar y ddaear.

Yn Iesu Grist dy Fab, Hosanna, Achub ni.

Amen.

## **Emyn 326 Hosanna, Haleliwia**

O'r nef mi glywais newydd  
fe'm cododd ar fy nhraed  
fod ffynnon wedi ei hagor  
i gleifion gael iachâd;  
fy enaid, rhed yn ebrwydd,  
a phaid â llwfrhau,  
o'th flaen mae drws agored  
na ddichon neb ei gau.

O Arglwydd, dwg fy ysbryd  
i'r ffynnon hyfryd, lân;  
ysgafnach fydd fy meichiau,  
melysach fydd fy nghân;  
goleuach fydd fy llwybrau,  
a'm camre fydd yn gynt,  
fe redaf heb ddiffygio,  
ond teimlo'r dwyfol wynt.

Ti, Iesu, fo hyfrydwch  
fy meddwl i'w fywhau,  
a gwrthrych pur fy nghariad  
i'th hoffi a'th fwynhau;  
fy ymffrost a'm gogoniant  
drwy hyn o anial daith,  
a'm cyflawn iachawdwriaeth  
i dragwyddoldeb maith.

(DAFYDD WILL.IAM, 1721?–94)

## **Y Fendith**